# Cynorthwyydd Climate Cymru

**SWYDD DDISGRIFIAD**

| | |
|---|---|
| **Cyflogir gan:** | Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA) |
| **Yn gyfrifol i:** | Rheolwr Climate Cymru |
| **Cyflog a phensiwn:** | £23,059 pro-rata<br><br>Byddwch yn cael eich cofrestru'n awtomatig yn ein cynllun pensiwn, a bydd WCIA yn talu cyfraniadau pensiwn hyd at uchafswm o 5% o'ch cyflog crynswth (o leiaf 4%) |
| **Telerau cyflogaeth:** | Cytundeb 12 mis yw hon. |
| **Lleoliad:** | Gweithio o bell, gyda'r opsiwn i weithio o'r swyddfa/yn hybrid yng Nghanolfan Materion Rhyngwladol Cymru, y Deml Heddwch, Caerdydd. |
| **Oriau:** | 4 ddiwrnod yr wythnos (29.6awr) – gyda'r opsiwn i weithio'n hyblyg ac o bell.<br><br>Rydym wedi cyflwyno ceisiadau am arian a fyddai'n cyflwyno'r opsiwn i gynyddu hyn i rôl llawn amser os bydd ceisiadau am gyllid yn llwyddiannus. |
| **Gwyliau:** | 36 diwrnod, yn cynnwys gwyliau'r banc, pro rata. |
| **Teithio:** | Os bydd angen i chi deithio fel rhan o'r swydd, bydd treuliau'n cael eu talu. |

## Ynghylch Climate Cymru

Mae Climate Cymru (https://climate.cymru/) yn fudiad o filoedd o unigolion, ac yn rhwydwaith o gannoedd o sefydliadau o bob sector yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod yr argyfwng hinsawdd a natur yn gofyn am weithredu brys a theg. Rydym yn credu y dylai gweithredu gael ei lywio gan wyddoniaeth a lleisiau pobl ar draws Cymru.

Mae Climate Cymru yn canolbwyntio ar effaith, yn ddeinamig, ac yn gyfrwng pwerus dros newid yng nghymdeithas Cymru. Rydym:

- Yn rhoi pwysau ar y rheini sydd â phŵer i wneud newidiadau pwysig.
- Yn ymgysylltu'n gynhyrchiol â Llywodraeth Cymru.

- Yn ysbrydoli a chysylltu ein rhwydwaith.
- Yn rhannu gwybodaeth a chyfleoedd pwysig gyda chymdeithas yng Nghymru.
- Yn dysgu gan leisiau o bob rhan o Gymru, ac yn gwneud yn siŵr bod y lleisiau hynny'n cael eu clywed a'u cynrychioli.

## Crynodeb o'r Rôl

Bydd y cynorthwyydd yn rhan ganolog o ystod eang o weithgareddau Climate Cymru, a bydd yn cefnogi rheolwr Climate Cymru i sicrhau newid gwirioneddol dros yr hinsawdd, natur a chyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r rôl yn gofyn am sgiliau trefnu sylweddol a'r gallu i gyflawni agweddau gweinyddol Climate Cymru, gan gynnwys rheoli e-byst Climate Cymru.

Rhan greiddiol o'r rôl yw sicrhau bod Climate Cymru yn ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg) yn ein holl gyfathrebu allanol yng Nghymru. Bydd y cynorthwyydd yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn helpu gyda chyfieithu'r holl allbwn dydd-i-ddydd.

## Cyfrifoldebau penodol y rôl hon:

1. **Rheoli e-bost**

    - Rheoli'r Mewnflwch Climate Cymru ac ymateb mewn modd amserol i ymholiadau e-bost amrywiol, gan gyfeirio at aelodau eraill o'r tîm am fewnbwn arbenigol lle bo'n briodol.

2. **Cyfieithiad**

    - Cyfieithu postiau cyfryngau cymdeithasol, a chynnwys ysgrifenedig arall o'r Saesneg i'r Gymraeg.

3. **Gweinyddiaeth Gyffredinol**

    - Cynorthwyo ymgyrchwyr a rheolwr yr ymgyrch trwy drefnu digwyddiadau, cyfarfodydd a gweithgorau Climate Cymru, ar hyd amrywiaeth o blatfformau ar-lein ac oddi ar-lein.

4. **Cefnogi Rheolwr, Prosiectau ac Ymgyrchoedd Climate Cymru**
    - Cymryd rhan weithredol yn y gwaith o drefnu a rheoli gweithgareddau, ymgyrchoedd, prosiectau, gweminarau, trafodaethau, digwyddiadau Climate Cymru, a chefnogi gwaith cydlynwyr yr ymgyrch a Rheolwr Climate Cymru.

WCIA
WELSH CENTRE FOR INTERNATIONAL AFFAIRS
CANOLFAN MATERION RHYNGWLADOL CYMRU

- Bydd yr union ofynion yn amrywio dros amser, ac yn debygol o olygu bod yn rhan o'r holl weithgareddau a digwyddiadau mawr y bydd Climate Cymru yn cymryd rhan ynddynt.

5. **Gwefan a CRM**

- Cynnal gwefan Climate Cymru a CRM yn wythnosol/dyddiol.

6. **Ymgymryd â dyletswyddau perthnasol eraill fel y'u dirprwyir gan eich rheolwr llinell.**

## Manyleb Person

Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos y priodoleddau canlynol, drwy eu cysylltu â phrofiadau a chyflawniadau perthnasol yn y datganiad cais am swydd.

**Gofynion hanfodol**
Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu:

- Dangos dealltwriaeth o, ac ymrwymiad i, genhadaeth Climate Cymru.
- Siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg yn rhugl, a chyfieithu negeseuon cyfryngau cymdeithasol a dogfennau eraill o'r Saesneg i'r Gymraeg.
- Dangos sgliliau trefnu rhagorol gyda'r gallu i reoli nifer o ffrydiau gwaith yn effeithiol a chynnal cofnodion at ddibenion monitro a gwerthuso a'r gallu i ysgogi eraill.
- Dangos gonestrwydd, cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain, a chynnal safonau moesegol uchel. Mae hyn yn cynnwys cymryd yr awenau ond gofyn am help lle bo angen.
- Trin pobl yn deg a chydag urddas a pharch a gallu annog pobl o bob cefndir i gymryd rhan yng ngwaith Climate Cymru gan gynnwys y rhai sydd wedi cael llai o gyfleoedd i ymgysylltu yn y gorffennol.
- Cyflwyno gwaith o safon uchel yn gyson, mewn modd amserol.
- Bod yn hynod llythrennog mewn TGCh ac yn gallu addasu a dysgu systemau gwahanol yn gyflym a chymwys.

**Priodweddau dymunol**

- Cyfathrebu'n glir ac yn gryno, yn enwedig yn ysgrifenedig, gan addasu'r arddull cyfathrebu i'r gynulleidfa.
- Gwybodaeth eang am faterion sy'n gysylltiedig â gwaith Climate Cymru. Er enghraifft, argyfyngau Hinsawdd a Natur, cyfiawnder hinsawdd, materion cyfiawnder cymdeithasol cydgysylltiedig ac atebion hinsawdd.
- Y gallu i ddefnyddio Wordpress, Eventbrite, Zoom, Teams, Action Network, Salesforce, Mailchimp, Canva, google groups, a google business suite.

## Proses Ymgeisio

- Mae'n rhaid i bob ymgeisydd lenwi ffurflen Cais am swydd swyddogol WCIA, sydd ar gael yn https://www.wcia.org.uk/get-involved/vacancies/. **Dylech ddarparu'r holl wybodaeth berthnasol ar y ffurflen gais. Dim ond ffurflen gais y byddwn yn ei derbyn - ni fyddwn yn derbyn CVs neu lythyron eglurhaol fel rhan o'r cais.**

- Dylai'r holl ymgeiswyr lenwi'r ffurflen Cyfleoedd Cyfartal. Mae'r rhain yn cael eu gwahanu oddi wrth eich ffurflen gais ar ôl eu derbyn, ac nid ydynt yn cael eu rhannu gyda'r panel sy'n llunio'r rhestr fer neu'r panel cyfweld.

- Cyflwynwch eich cais trwy e-bost at canolfan@wcia.org.uk. Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw ofynion mynediad er mwyn gwneud cais.

- Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau ydy **09.00 ar ddydd Llun 23 Mai 2022.** Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth drwy e-bost at bob ymgeisydd. Os nad ydych yn derbyn cydnabyddiaeth cyn y dyddiad cau, cysylltwch â ni. Nid ydym yn gyfrifol am geisiadau sydd ddim yn ein cyrraedd, neu sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau

- Os cewch eich rhoi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, byddant yn cael eu cynnal dros Zoom, a byddwn yn cysylltu â chi'n uniongyrchol.

- Ni chymerir unrhyw dystlythyrau hyd nes y bydd cynnig cyflogaeth dros dro wedi'i wneud.

- Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael eu hysbysu trwy e-bost.